

Troi Sbwriel yn Adnodd

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Fframwaith Gwastraff ac Adnoddau – 2025 i
2030**



Version 1.1
November 2025

Document Title	Waste and Resource Framework
Document Reference	RCT-WRF-V1.1
Version	1.1
Date of Issue	03 November 2025
Author	Lee Foulkes
Owner	Rhondda Cynon Taf County Borough Council
Approved By	Stephen Williams
	Director for Highways, Streetcare and Transportation Services
Review Date	Nov-2027
Status	FINAL

[illegible]

CYNNWYS	TUD
1 CYFLWYNIAD	1
1.1 Cwmpas	1
1.2 Cyd-destun polisi	2
1.3 Adolygiad Cyfredol o Gyflawniad	3
1.4 Tueddiadau Rheoli Gwastraff yn y Dyfodol	6
2 METHODOLEG CASGLU GWASTRAFF	9
2.1 Cysylltiadau Ailgylchu	9
2.2 Casglu Gwastraff Gweddilliol	11
2.3 Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref (Canolfannau Ailgylchu yn y Gymuned)	12
2.4 Newidiadau yn y Fethodoleg Casglu	12
3 CEFNOGI'R ECONOMI GYLCHOL LEOL	13
3.1 Mewn Partneriaeth ag Amgen Cymru	14
3.2 Cyflwyno Ailgylchu Effeithlon o Ansawdd Uchel	14
3.3 Atgyweirio ac Ailddefnyddio	15
3.4 Arloesedd a Chyllid	15
4 ADDYSG A HYFFORDDIANT	16
4.1 Ymwybyddiaeth o Wastraff ac Addysg	16
5 TARGEDU CYFLAWNIAD	17
5.1 Casglu, Rheoli ac Adrodd Data	17
5.2 Cyfradd Ailgylchu	17
5.3 Lleihau Gwastraff ac Ailddefnyddio	17
5.4 Allyriadau Carbon ac Addasu i'r Hinsawdd	18
5.5 Effeithlonrwydd	20
5.6 Amcanion Allweddol	21

1. CYFLWYNIAD

- 1.0.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau rheoli gwastraff cynaliadwy o ansawdd uchel. Dros y 10 mlynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi canolbwyntio polisi gwastraff ar ddargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi, gan weithredu mesurau sydd â'r nod o sicrhau cyfraddau uchel o ailgylchu. Yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ym mis Ebrill 25, ailgylchodd y Cyngor 71.11% o'r holl wastraff solet trefol a gasglwyd ledled y Fwrdeistref.
- 1.0.2 Mae'r ddogfen fframwaith yma'n nodi dull y Cyngor o ddarparu gwasanaeth casglu gwastraff cost-effeithiol a chyflawniad uchel dros y 5 mlynedd nesaf. Darparu gwasanaeth ailgylchu cyfleus a hawdd ei ddefnyddio i drigolion, gan gynnal cyfraddau ailgylchu o dros 70%, fydd egwyddor gyffredinol y fframwaith.
- 1.0.3 Mae gwasanaethau casglu rheoli gwastraff ac ailgylchu a gwaredu gwastraff solet yn arwain at allyriadau carbon. Mae'r Cyngor wedi nodi sut y bydd yn lleihau allyriadau carbon yn ei strategaeth newid hinsawdd 'Hinsawdd Ystyriol'. Wrth wneud penderfyniadau ynghylch y dull o gasglu gwastraff neu'r prosesau a'r gwasanaethau a gaiff eu defnyddio i ailgylchu neu waredu gwastraff, bydd y Cyngor yn ceisio lleihau allyriadau carbon lle bynnag y bo'n ymarferol.
- 1.0.4 Mae'r fframwaith gwastraff ac adnoddau wedi'i ddatblygu mewn modd sy'n gyson â gwerthoedd corfforaethol y Cyngor a chynlluniau strategol ehangach.

1.1 Cwmpas

- 1.1.1 Mae'r ddogfen fframwaith yma'n nodi amcanion rheoli gwastraff strategol y Cyngor ac yn manylu ar fesurau a fydd yn cael eu defnyddio i gyflawni'r lefel cyflawniad ofynnol, mewn perthynas â thargedau y mae modd eu mesur. Bydd y fframwaith yn cael ei ddefnyddio gan y Cyngor fel fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau a bydd yn dilyn blaenoriaethu'r hierarchaeth gwastraff. Dros y 5 mlynedd nesaf, bydd y Cyngor yn anelu at:
- Cynorthwyo aelwydydd i leihau gwastraff drwy addysg a mesurau eraill sy'n ymarferol i leihau gwastraff (e.e. ailddefnyddio).
 - Ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio cymaint o wastraff ag sy'n ymarferol yn dechnegol ac yn economaidd.
 - Gwellu effeithlonrwydd a chynaliadwyedd pob agwedd ar y gwasanaeth, o gasglu wrth ymyl y ffordd i gyflenwi deunyddiau o ansawdd uchel i'r economi gylchol.
 - Parhau i ddarparu gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu syml a hawdd ei gyrraedd.
 - Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

1.2 Cyd-destun y polisi

- 1.2.1 Mae'r Cyngor yn parhau i gasglu gwastraff trefol yn unol â'r rhwymedigaeth a osodwyd o dan adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, fel y'i diwygiwyd. Mae'r Ddeddf yn rhoi awdurdod i'r Cyngor nodi'r ffordd y cyflwynir gwastraff i'w gasglu ac i roi rhybuddion ysgrifenedig a chosbau am fethu â chydymffurfio â gofynion casglu.
- 1.2.2 Cafodd polisi rheoli gwastraff ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru o fewn darpariaeth Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau polisi gwastraff ynghyd â deddfwriaeth sy'n nodi rhwymedigaethau statudol ar gyfer cynyddu ailgylchu gwastraff solet trefol, a dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi.
- 1.2.3 Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn nodi fframwaith y dylai awdurdodau cyhoeddus Cymru geisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n gyfarwydddeb polisi gyffredinol, sydd â goblygiadau ar gyfer ystod eang o strategaethau a gwasanaethau'r Cyngor ac mae'n arbennig o berthnasol i'n dull o reoli gwastraff. Bydd y newid i economi fwy cylchol yn sicrhau nad yw adnoddau'n cael eu gwastraffu a'u bod ar gael i gymdeithas yn y dyfodol.

Lwfans Tirlenwi ac Ailgylchu

- 1.2.4 Mae Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 yn nodi targedau blynyddol blaengar ar gyfer awdurdodau lleol Cymru mewn perthynas ag ailgylchu, paratoi ar gyfer ailddefnyddio a chompostio. Y targed terfynol a nodir yn ffurf bresennol y deddfwriaeth yw ailgylchu 70% (gan gynnwys ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio) o wastraff solet trefol yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Gall methu â chyrraedd y targed yma arwain at gosbau ariannol gan Weinidogion Llywodraeth Cymru. Mae deddfwriaeth berthnasol arall yn hyn o beth fel a ganlyn:

- Rheoliadau Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004 – yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfyngu ar wastraff sy'n cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi.
- Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011 – mae'n darparu rheolau ar yr hyn a all a'r hyn na all fod yn gymwys i'w ailgylchu, ei ailddefnyddio neu ei gompostio.
- Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011 – mae'n diffinio'r gosb ariannol fel £200 y dunnell y mae awdurdod lleol yn methu â chyrraedd y swm targed blynyddol.

Y Tu Hwnt i Ailgylchu

- 1.2.5 Yn 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth wastraff wedi'i diweddaru 'Y Tu Hwnt i Ailgylchu'. Mae hyn yn nodi ymrwymiad yng Nghymru i gyflymu'r newid i economi gylchol, carbon isel. O'r wyth ymrwymiad a gaiff eu hamlinellu yn y strategaeth, ystyrir bod y tri canlynol yn hanfodol i fframwaith rheoli gwastraff ac adnoddau'r Cyngor yn y dyfodol:

- Byddwn ni'n ymdrechu i gyflawni'r cyfraddau ailgylchu uchaf yn y byd.
- Byddwn ni'n lleihau effaith amgylcheddol casglu gwastraff o'n cartrefi a'n busnesau.
- Byddwn ni'n cymryd cyfrifoldeb llawn am ein gwastraff. Byddwn ni'n lleihau faint o wastraff y byddwn ni'n ei gynhyrchu ac yn rheoli'n effeithiol yr hyn a grëwn drwy gael yr isadeiledd sydd ei angen arnom ni.


Gwastraff Masnachol

- 1.2.6 Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddarparu casgliadau gwastraff gan fusnesau masnachol, lle mae galw. Mae'r gofyniad yma wedi'i nodi yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac mae'r Ddeddf yn diffinio 'mangre fasnachol' ac yn gwneud darpariaeth i'r Cyngor godi ffioedd am wasanaeth casglu a gwaredu gwastraff masnachol. Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu gwasanaeth casglu 'Gwastraff Masnach', gan roi cyfleoedd i fusnesau lleol ailgylchu eu gwastraff cyn belled ag y bo'n ymarferol.
- 1.2.7 Daeth Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 Llywodraeth Cymru i rym ym mis Ebrill 2024. Mae'r ddeddfwriaeth yma'n golygu newid sylweddol yn y ffordd y caiff gwastraff masnachol ei gasglu ledled Cymru. Am y tro cyntaf, mae'n rhwymedigaeth gyfreithiol i gasglu gwastraff masnachol mewn modd sy'n hwyluso ailgylchu. Nodir bod y gofynion canlynol ar gyfer casglu'r math yma o wastraff yn berthnasol i Wasanaeth Gwastraff Masnach y Cyngor.
- Rhaid cyflwyno a chasglu Gwastraff Bwyd ar wahân i ddeunyddiau eraill y mae modd eu hailgylchu a gwastraff gweddilliol.
 - Rhaid cyflwyno'r pedwar prif fath o ddeunyddiau y mae modd eu hailgylchu (papur, gwydr, plastig a metel) ar wahân i wastraff gweddilliol a rhaid eu casglu mewn tair ffordd wastraff ar wahân, o leiaf: i) papur a cherdyn, ii) plastigau a metelau, iii) gwydr.
 - Rhaid cadw gwastraff a gesglir ar wahân yn ystod y broses gasglu a phrosesu.
 - Rhaid cyflwyno a chasglu Cyfarpar Trydanol ac Electronig (WEEE) a thecstilau heb eu gwerthu ar wahân hefyd.
- 1.2.8 Mae'r Cyngor wedi darparu cynwysyddion gwastraff bwyd a bagiau lliwiau amrywiol i'w gwsmeriaid masnachol ar gyfer gwahanu ailgylchu. Mae'r ddeddfwriaeth yn cael ei gorfodi mewn modd trosiannol o dan reoleiddio Cyfoeth Naturiol Cymru. Efallai y bydd gofyn i'r Cyngor wneud newidiadau i'w wasanaethau casglu Gwastraff Masnach wrth i ganllawiau pellach ar gydymffurfiaeth ddod ar gael.

1.3 Adolygiad o'r Cyflawniad Cyfredol (Ble rydyn ni)

- 1.3.1 Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi cyflawni cyfraddau ailgylchu uchel yn gyson, gan gydymffurfio â phob un o'r targedau olynol a gaiff eu pennu ym Mesur Gwastraff (Cymru) 2010. Cyflawnwyd hyn drwy gyfranogiad trigolion mewn casgliadau ailgylchu o ymyl y ffordd. Mae Ffigur 1, isod, yn rhoi trosolwg o gynnydd y Cyngor o lai na 30%

o ailgylchu ar gyfer blwyddyn ariannol 2006/07 i'r gyfradd ailgylchu bresennol o 71.11% o ailgylchu, fel y'i hadroddwyd dros dro ar gyfer 2024/25.



Commented [RW1]: Ffigur 1: Prif Gyfradd Ailgylchu
Flynyddol a adroddwyd ar gyfer Cyngor Rhondda Cynon Taf
yn ystod y cyfnod 2006/07 i 2024/25

Cyfradd Ailgylchu RhCT (%)

1.3.2 Dangosir bod y Cyngor a'i drigolion wedi gwneud cynnydd cymharol gyson i ailgylchu 65% rhwng 2007 a 2017, tra bod cynnydd tuag at 70% wedi bod yn anoddach. Mae modd crynhoi'r camau allweddol a gymerwyd gan y Cyngor i hwyluso'r cynnydd yma fel a ganlyn:

Blwyddyn	Carreg Filtir
2006	Mae Cyngor RhCT yn cyflwyno casgliad ailgylchu sych cymysg ledled y Fwrdeistref. Darperir sach plastig clir i drigolion, sy'n targedu'r pedwar prif ddeunydd (gwydr, metel, papur a phlastig).
2009	Mae'r Cyngor yn cyflwyno casgliad gwastraff bwyd wedi'i wahanu o'r ffynhonnell ar draws ei holl aelwydydd. Caiff 'cadi cegin' ei ddarparu i drigolion, ar gyfer gwahanu gwastraff bwyd o fewn y cartref a bin plastig mwy ar gyfer storio a gosod y gwastraff o ymyl y ffordd.
2013	Mae Cyngor RhCT yn newid amlder casglu gwastraff gweddilliol y cartref o gasgliadau wythnosol i bob pythefnos ac wedi gweithredu terfyn ar gyfaint y gwastraff gweddilliol a ganiateir ar gyfer pob aelwyd (wedi'i gyfyngu i 2 sach sbwriel safonol bob pythefnos). Yn ogystal â hyn, dechreuodd y Cyngor y broses o ddisodli biniau 240 litr (ar olwynion) gyda fersiynau llai o 120 litr.
2014	Mae'r Cyngor yn cyflwyno cyfyngiadau gwastraff ychwanegol. Roedd aelwydydd â biniau 240 litr yn cael eu gwahardd rhag cyflwyno gwastraff gweddilliol mewn bagiau ychwanegol (gwastraff ychwanegol). Caniatwyd i aelwydydd â bin 120 litr gyflwyno 1 bag gwastraff ychwanegol. O ran derbyn gwastraff gweddilliol o fewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref (Canolfannau Ailgylchu yn y Gymuned) y Cyngor,

	cafodd polisi yn atal gwaredu gwastraff cymysg mewn bagiau ei roi ar waith.
2015	Er mwyn gwella ansawdd ailgylchu ac i gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, cyflwynodd y Cyngor gasgliad ar wahân o wastraff gwyrdd, a gyflwynir o ymyl y ffordd mewn sachau plastig clir. Mae'r Cyngor yn cyflwyno mwy o adnoddau ar gyfer monitro ansawdd ailgylchu ac yn gweithredu polisi gorfodi ar gyfer diffyg cydymffurfio parhaus.
2016	Estynnwyd amlder y gwasanaethau casglu gwastraff a ddarparwyd yn fewnol i adrannau/adeiladau eraill y Cyngor o bob wythnos i bob pythefnos. Mae'r Cyngor yn cyflwyno cynllun ailgylchu Coed Nadolig trwy system archebu.
2019	Cyflwyno casgliad gwastraff bwyd ar wahân ar gyfer cwsmeriaid masnach. Mae'r Cyngor yn gweithio gydag Amgen Cymru i ddatblygu cyfleuster ailgylchu deunyddiau 'o'r radd flaenaf' ar safle rheoli gwastraff Bryn Pica (Aberdâr).
2021	Caiff Sachau Hessian y mae modd eu haildefnyddio eu darparu i bob aelwyd ar gyfer casglu a chyflwyno gwastraff gardd (gwyrdd). Gostyngodd hyn ddefnydd y Cyngor o sachau plastig untro.
2022	Lansiwyd ymgyrch ymwybyddiaeth o wastraff ac ailgylchu 'Gwella eich Ailgylchu'.
2023	Mae'r Cyngor yn ymestyn ymhellach amlder casglu gwastraff gweddilliol y cartref o bob pythefnos i bob tair wythnos, gan gynnal y rheolaethau cyfaint gwastraff gweddilliol a gafodd ei weithredu yn flaenorol.
2024	Mae'r Cyngor yn gweithredu ei bolisi 'Biniau i Fagiau', sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob preswlydd gyflwyno gwastraff gweddilliol o ymyl y ffordd mewn sachau sbwriel safonol, yn hytrach na biniau ar olwynion, a gafodd eu defnyddio gan tua 60% o gartrefi. Gweithredu Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle [Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023] a chyflwyno casgliadau bob 3 wythnos ar gyfer cwsmeriaid gwastraff masnach.
2025	Mae'r Cyngor wedi cyrraedd y Targed Ailgylchu o 70%! Ar gyfer cyfnod adrodd 2024/25 mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn adrodd cyfradd ailgylchu o 71.11%.

1.3.3 Mae cyfeintiau'r gwastraff ailgylchu cymysg sych a'r gwastraff bwyd wedi'i wahanu a gaiff ei gasglu o ymyl y ffordd wedi cynyddu'n gyson dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae gwastraff bwyd yn enghraifft lle mae strategaeth gasglu'r Cyngor wedi cyflawni cynnydd sylweddol yng nghyfranogiad aelwydydd. Yn ystod cyfnod adrodd 2019/20

casglodd y Cyngor 11,654 tonnall o wastraff bwyd, sy'n cyfateb i 8.6% o'r 136,297 tonnall o gyfanswm y Gwastraff Trefol a gasglwyd. Cododd hyn i 13,845 tonnall o wastraff bwyd a gasglwyd yn y flwyddyn adrodd 2024/25, sy'n cyfateb i 12.4% o'r 111,619 tonnall o gyfanswm y Gwastraff Trefol a gasglwyd.

1.3.4 Mae arolygon diweddar a gynhaliwyd gan y Cyngor yn dangos bod y rhan fwyaf o drigolion yn cymryd rhan yn rheolaidd yng ngwasanaeth ailgylchu o ymyl y ffordd wythnosol y Cyngor. Maen nhw'n gwneud yn fawr o fanteision y gwasanaeth sydd ar gael yn eang ac yn hawdd ei ddefnyddio, gan gyflwyno gwastraff a gasglwyd ar wahân yn y ffurf ofynnol. Serch hynny, mae canran fach o aelwydydd yn parhau i gymryd rhan mewn rhai elfennau o'r gwasanaethau'n unig a/neu'n gwneud hynny'n anaml.

1.3.5 Yn ystod cyfres o arolygon stryd a gynhaliwyd yn ystod 2023, penderfynwyd nad oedd rhwng 30 a 35% o gartrefi yn cyflwyno gwastraff bwyd i'w ailgylchu'n gyson. Er bod cyfranogiad cyffredinol wedi cynyddu'n sylweddol yn dilyn gweithredu casgliadau gwastraff gweddilliol bob 3 wythnos ym mis Gorffennaf 2023, roedd cyfranogiad mewn ailgylchu gwastraff bwyd yn parhau i fod islaw 80% o'r aelwydydd a gafodd eu harolygu. Ar ben hynny, dangoswyd bod arolwg nodweddu gwastraff bach a gynhaliwyd ar wastraff gweddilliol a gafodd ei samplu o amrywiaeth o gartrefi yn cynnwys gwastraff bwyd y mae modd ei ailgylchu ar lefelau mor uchel â 25% (Wrap 2023).

1.3.6 Er mwyn galluogi'r Cyngor i gyflawni cyfraddau ailgylchu uchel yn gyson (h.y. ailgylchu mwy na 70%), mae angen i gyfraddau cyfranogiad aelwydydd gynyddu ynghyd â chyfanswm y deunydd y mae pob aelwyd yn ei ailgylchu. Bydd ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus yn parhau i gael eu defnyddio i annog trigolion i ailgylchu eu gwastraff yn rheolaidd a byddan nhw'n anelu at wneud y mwyaf o gyfranogiad mewn:

- ailgylchu sych (gwydr, metel, papur a phlastig),
- gwastraff bwyd (bwyd a chroen wedi'i daflu a gwastraff cegin bioddiraddadwy arall)
- gwastraff gardd (toriadau glaswellt a thoriadau coed ac ati).

Yn ogystal â hyn, caiff trigolion eu hannog i ddefnyddio Canolfannau Ailgylchu yn y Gymuned y Cyngor i'w potensial llawn. Gyda darpariaeth pwyntiau gwaredu ailgylchu ar gyfer dros 20 o wahanol fathau o ddeunyddiau, mae'n bwysig bod trigolion yn gwahanu eu gwastraff cyn belled ag y bo'n ymarferol bosibl.

1.3.7 Mae'r Cyngor yn gweithredu chwe chanolfan ailgylchu yn y gymuned, a elwir hefyd yn Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref. Mae modd i drigolion ddefnyddio'r cyfleusterau yma i ailgylchu ystod eang o eitemau cartref megis gwastraff gardd, metel, pren, plastigau anhyblyg a chardbord. Er bod darpariaeth ar gyfer gwaredu gwastraff gweddilliol nad oes modd ei ailgylchu, caiff trigolion eu hannog i ailgylchu cymaint o'u gwastraff â phosibl.

1.4 Tueddiadau Rheoli Gwastraff yn y Dyfodol

1.4.1 Yn 2024, cyhoeddodd y sefydliad ymchwil ac ymgynghori Eunomia Dabl Cynghrair Ailgylchu Byd-eang – Adroddiad Cyfnod Un, gan osod Cymru yn ail yn fyd-eang,

ychedig y tu ôl i Awstria, gyda chyfradd ailgylchu o 59%. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod uchelgais hirdymor i ddod yn '*economi dim gwastraff*' erbyn 2050. Ar adeg ysgrifennu, dyw yw pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ddim wedi cyrraedd y targed ailgylchu bwrdeistrefol cyfredol o 70% a osodwyd ar gyfer 2025. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried a oes angen mesurau deddfwriaethol pellach i gefnogi'r amcan dim gwastraff. Mae disgwyl i nodau polisi tymor byr ganolbwyntio ar gyflawni cyfradd ailgylchu o 80% ar gyfer gwastraff trefol. Bydd y Cyngor yn ymateb i unrhyw ganllawiau neu ddeddfwriaeth yn y dyfodol a bydd yn adolygu'r fframwaith yma yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

- 1.4.2 Mae cynnydd mewn ailgylchu yng Nghymru wedi'i yrru i raddau helaeth gan ymyriadau sy'n targedu deunyddiau yn y man gwaredu. Mae tuedd glir bod llunwyr polisi yn bwriadu symud rhywfaint o'r ffocws yma tuag at weithgynhyrchwyr a chyflenwyr cynnyrch. Yn benodol, mae cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig a Chynlluniau Blaendal a Dychwelyd yn ddau faes polisi y mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd y llywodraeth yn ceisio gwneud cynnydd arnyn nhw dros gyfnod y fframwaith yma. Bydd mesurau sy'n gysylltiedig â'r cysyniadau yma'n effeithio'n uniongyrchol ar strategaeth gasglu'r Cyngor a byddai modd iddyn nhw gael effaith sylweddol ar ffynonellau cyllid sydd ar gael i gefnogi costau casgliadau ailgylchu.

Cyfrifoldeb Cynhyrchydd Estynedig

- 1.4.3 Mae llawer o'r gwastraff a gaiff ei gasglu gan y Cyngor o gartrefi yn ddeunyddiau pecynnu wedi'u taflu. Mae gweithgynhyrchwyr, yn enwedig o fewn y diwydiant bwyd a diod, yn dibynnu'n fawr ar boteli gwydr, caniau dur a chardbord i sicrhau bod eu cynnyrch yn cyrraedd y defnyddiwr yn y cyflwr gorau posibl.
- 1.4.4 Mae'r defnydd treiddiol o'r deunyddiau yma'n anghynnaladwy, yn enwedig lle na chânt eu casglu ar gyfer ailgylchu o ansawdd uchel. Mae deunyddiau pecynnu yn rhoi baich ariannol ar awdurdodau casglu gwastraff, ac yn gyffredinol ystyrir nad yw cynhyrchwyr wedi rhoi digon o ystyriaeth i ddiwedd eu hoes. Mae modd ystyried Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn ystod o ymyriadau sydd â'r nod o symud elfennau o faich amgylcheddol, technegol ac ariannol gwastraff, yn enwedig deunydd pacio, yn ôl i gynhyrchwyr. Y canlyniad a ddymunir yw i weithgynhyrchwyr ddatblygu cynhyrchion a pheccynnu mwy cynaliadwy, gan ddefnyddio llai o ddeunyddiau crai gyda llai o ddefnydd o ynni.
- 1.4.5 Roedd Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Pecynnu) (Diwygio) 2022 yn gam allweddol yn nhrawsnewidiad y DU tuag at Gyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig. Diweddarodd y rheoliadau yma dargedau ailgylchu a chyflwynodd ddyletswyddau adrodd newydd ar gyfer busnesau sy'n rhoi deunydd pacio ar y farchnad. Yn bwysicach fyth, fe wnaethon nhw baratoi'r ffordd ar gyfer model ariannu newydd lle mae cynhyrchwyr yn cyfrannu'n uniongyrchol at gostau rheoli gwastraff pecynnu. O dan y model newydd, mae cynhyrchwyr bellach yn helpu i ariannu costau rheoli gwastraff pecynnu cartrefi, gan leddfu'r baich ariannol ar awdurdodau lleol. Y canlyniad yw system fwy cynaliadwy sy'n annog dylunio pecynnu gwell, yn gwella cyflawniad ailgylchu, ac yn rhoi adnoddau i gynghorau i fuddsoddi mewn isadeiledd gwastraff ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

1.4.6 Yn 2025, cyflwynodd Llywodraeth y DU fecanwaith ariannu newydd ar gyfer cynghorau Cymru i gefnogi gwelliannau rheoli gwastraff. Roedd y dyraniadau cychwynnol yn seiliedig ar fethodoleg sefydlog gan ddefnyddio data a adroddwyd gan awdurdodau lleol. Gall diwygiadau i'r model ariannu yn y dyfodol ystyried ffactorau megis cyflawniad ailgylchu ac effeithlonrwydd gwasanaethau.

1.4.7 Bydd staff y Cyngor yn anelu at wneud y mwyaf o lefelau incwm o'r ffynhonnell yma. Lle bo cyfleoedd i wella metrigau cyflawniad sy'n gysylltiedig â thaliadau, bydd y rhain yn destun asesiadau achos busnes unigol.

Cynlluniau Dychwelyd Blaendal

1.4.8 Yn hanesyddol, efallai y bydd trigolion yn cofio dychwelyd poteli gwydr, laeth neu ddiod yn y 1970au/80au a derbyn blaendal ariannol bach yn gyfnewid. Mae modd ystyried y rhain yn ffurf syml o 'Gynllun Dychwelyd Blaendal' ac yn y rhan fwyaf o achosion y canlyniad oedd y byddai'r botel yn cael ei glanhau a'i hailddefnyddio. Daeth y rhan fwyaf o enghreifftiau o hyn yn y DU i ben gyda chynnydd ym mhoblogrwydd yr archfarchnad a'r defnydd eang o ganiau plastig a metel o wydr. Mae llawer o lunwyr polisïau gwastraff yn ystyried bod aildddefnyddio deunydd pacio fel hyn yn ffordd gynaliadwy yn amgylcheddol o leihau cynhyrchu deunydd pacio.

1.4.9 Mae awydd cyffredinol i weithredu rhyw fath o Gynllun Dychwelyd Blaendal ar gyfer rhai elfennau o ddeunydd pacio a gyflenwir o fewn marchnad y DU. Mae enghreifftiau o gynlluniau sy'n gweithredu'n llwyddiannus mewn rhai gwledydd Ewropeaidd. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar gwmpas a methodolegau posibl ar gyfer y Cynllun ledled y DU, gydag amrywiadau posibl ymhlith y pedair llywodraeth ddatganoledig. Pan gaiff ei weithredu ac yn dibynnu ar y cwmpas, gall Cynllun Dychwelyd Blaendal newid cyfansoddiad cyffredinol casgliadau ailgylchu trefol. Gallai hyn gael goblygiadau ar gyfer elfennau o fframwaith gwastraff ac adnoddau'r Cyngor.

1.4.10 Er y gallai fod cyfleoedd i'r Cyngor hwyluso Cynllun Dychwelyd Blaendal, mae yna hefyd y bygythiad posibl y bydd rhai deunyddiau pecynnu gwerth uchel yn cael eu cyfeirio i ffwrdd o wasanaeth casglu ailgylchu'r Cyngor. Mae deunyddiau megis alwminiwm a pholyethylen tereffthalad (PET, a gaiff ei ddefnyddio fel arfer mewn poteli diodydd plastig) ymhlith yr ychydig ddeunyddiau sy'n denu incwm da pan gânt eu cyflenwi i'r economi gylchol. Mae'n debygol y bydd dargyfeirio symiau mawr o fathau gwerthfawr o ddeunyddiau, o gasgliadau ailgylchu'r Cyngor, yn arwain at lai o incwm i'r Cyngor, gan effeithio ar gyllidebau gweithredu blyneddol.

1.4.11 Bydd y Cyngor yn rhoi'r dasg i'w swyddogion o gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn ymwneud â'r Cynllun Dychwelyd Blaendal a bydd yn ymgymryd â modelu unrhyw effaith ar y gwasanaeth pan fydd gwybodaeth ar gael gan y llywodraeth.

2. METHODOLEG CASGLU GWASTRAFF

- 2.0.1 Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau casglu gwastraff am ddim wrth ddefnyddio i bob aelwyd ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae hyn ar ffurf gwasanaeth casglu gwastraff ac ailgylchu o ymyl y ffordd sy'n effeithlon a hawdd ei ddefnyddio. Mae fformat y gwasanaeth casglu yn y fath fodd fel ei fod yn annog trigolion i leihau eu gwastraff gweddilliol wrth wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i ailgylchu eitemau cartref bob dydd y maen nhw'n eu taflu.
- 2.0.2 Mae Rhondda Cynon Taf yn cynnwys yn bennaf yr hyn y gellir ei ddisgrifio fel cymunedau cymoedd o amgylch trefi. Caiff ardaloedd uchaf cymoedd Rhondda Fach a Rhondda Fawr ac i raddau ychydig yn llai Cwm Cynon eu nodweddu gan resi o dai teras wedi'u crynhoi ar lawr cul y cwm a llethrau isaf ochrau'r cwm. Ac yntau wedi'u hadeiladu ar ddechrau'r 20fed ganrif, mae llawer o'r strydoedd yn gul, gyda pharcio cyfyngedig ar ochr y ffordd a mynediad ffordd sengl. Mae hyn yn cyflwyno heriau unigryw i wasanaethau casglu gwastraff gyda lle cyfyngedig ar ochr y ffordd ar gyfer ystod eang o gynwysyddion gwastraff a chyfyngiadau mynediad ar gerbydau casglu sbwriel mewn rhai ardaloedd.
- 2.0.3 Tua de'r fwrdeistref, er bod cyfran uchel o dai teras yn parhau i fodoli, mae gradd uwch o dai pâr neu dai ar wahân gyda lleiniau mwy. Yn gyffredinol, mae twf tai yn fwy cyffredin yn ne'r fwrdeistref gydag ardaloedd megis Pentref yr Eglwys, Meisgyn / Pont-y-clun a Thonysguboriau ymhlith yr ardaloedd twf tai uchaf dros yr 20 mlynedd diwethaf.
- 2.0.4 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu o ymyl y ffordd ar ffurf sydd fwyaf addas i forffoleg ei gymunedau a'r ddemograffeg ynddyn nhw.

2.1 Casgliadau Ailgylchu

- 2.1.1 Yn ystod cyfnod adrodd 2024/25, casglodd y Cyngor tua 111,400 tonnell o wastraff cartref, a chasglwyd 75,000 tonnell ohono drwy gasgliadau o ymyl y ffordd. O'r gwastraff o ymyl y ffordd yma, roedd 31,200 tonnell (41%) yn cynnwys deunyddiau cymysg sych y mae modd eu hailgylchu a gyflwynwyd yn y sachau clir a gafodd eu darparu gan y Cyngor. Mae'n parhau i fod yn hanfodol bod trigolion yn parhau i gyflwyno eu hailgylchu yn y fformatau rhagnodedig. Mae gwneud hynny yn cefnogi gweithrediadau casglu effeithlon ac yn sicrhau bod deunyddiau o ansawdd uchel ar gael i'w cyflenwi i'r economi gylchol.
- Ailgylchu Cymysg Sych
- 2.1.2 Mae'r rhan fwyaf o'r eitemau traul sy'n cael eu taflu'n rheolaidd gan aelwydydd yn dod o dan bedwar math o ddeunydd: papur, plastig, metel a gwydr. Mae'r deunyddiau 'Ailgylchadwy Sych' yma'n cael eu casglu'n wythnosol gan y Cyngor. Er hwylustod cyfranogiad ac effeithlonrwydd casglu, darperir sachau plastig clir i drigolion a gofynnir iddyn nhw gyflwyno eu deunyddiau ailgylchadwy cartref gyda'i gilydd. Caiff yr 'ailgylchu cymysg sych' yma ei drosglwyddo i Gyfleuster Ailgylchu Deunyddiau 'o'r radd flaenaf' y Cyngor, lle caiff ei wahanu'n nifer o ffrydiau deunydd gwahanol i'w

cyflenwi i weithgynhyrchwyr sy'n gweithredu o fewn yr economi gylchol, er enghraifft: melinau papur ac ailweithgynhyrchwyr gwyrdr.

- 2.1.3 Mae modd i drigolion gael 'bagiau ailgylchu' am ddim, sef sach dryloyw plastig, o un o'r nifer o bwyntiau cyflenwi lleol ledled y Fwrdeistref. Yn ystod cyfnod y fframwaith yma, bydd y Cyngor yn adolygu'r fethodoleg dosbarthu ac efallai y bydd yn ystyried dulliau eraill o gyflenwi bagiau ailgylchu i gartrefi. Bydd y rhain yn anelu at gynyddu effeithlonrwydd dosbarthu bagiau ailgylchu i drigolion, gan reoli unrhyw wastraff ar yr un pryd.

Gwastraff Bwyd

- 2.1.4 Mae'r Cyngor yn annog ei drigolion i wahanu bwyd oddi wrth wastraff arall trwy ddarparu bagiau ailgylchu gwastraff bwyd am ddim a chadis cegin hylan (cynwysyddion gwastraff bwyd plastig). Yn ogystal â hyn, caiff bin gwastraff bwyd mwy hefyd ei ddarparu ar gyfer cyflwyno'r gwastraff bwyd wedi'i wahanu ar ochr y ffordd. Caiff casgliadau ailgylchu gwastraff bwyd eu cynnal bob wythnos.
- 2.1.5 Mae bwyd yn adnodd pwysig, a bydd y Cyngor yn parhau i annog trigolion i beidio â gwastraffu bwyd. Bydd hyn yn cael ei wneud mewn partneriaeth â sefydliadau cyhoeddus perthnasol megis y Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau a bydd fel arfer ar ffurf ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth (e.e. Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff).
- 2.1.6 Lle nad oes modd osgoi gwaredu gwastraff bwyd, a lle mae modd ei wahanu'n effeithiol oddi wrth fathau eraill o wastraff, mae'n parhau i fod yn nwydd gwerthfawr. Mae gwastraff bwyd a gaiff ei gasglu gan y Cyngor o fewn y fwrdeistref yn cael ei drin yng Ngwaith Treulio Anaerobig Gwastraff Bwyd Cwm Yfory (Bryn Pica, Aberdâr). Mae'r cyfleuster yn ailgylchu gwastraff bwyd yn ynni trydanol a gwrtaith hylifol gan greu swyddi lleol a darparu manteision economaidd ehangach.

Gwastraff Gwyrdd

- 2.1.7 Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff gardd tymhorol i gartrefi, gan weithredu bob wythnos ledled y Fwrdeistref o fis Ebrill i fis Hydref. Y tu allan i'r cyfnod yma, mae gwasanaeth optio i mewn gostyngedig ar gael i adlewyrchu cyfeintiau is o wastraff gardd yn ystod yr hydref a'r gaeaf. Caiff trigolion sachau y mae modd eu hailddefnyddio i'w cyflwyno o ymyl y ffordd, gyda sachau ychwanegol ar gael i'w prynu.
- 2.1.8 Mae gwastraff gwyrdd yn cael ei brosesu a'i ailgylchu gan bartneriaid y Cyngor yn wrtaith ansawdd uchel i wella ansawdd pridd. Fel arfer, caiff hyn ei wneud drwy'r broses o gompostio mewn rhenciau er bod technolegau hyfyr eraill ar gael ac mae modd eu defnyddio yn dibynnu ar fanteision penodol.

Ffracsiynau Eraill a Gasglwyd ar wahân

- 2.1.9 Yn ogystal â'r tair prif ffrwd ailgylchu a drafodwyd uchod, mae'r Cyngor hefyd yn darparu gwasanaethau casglu a dyddodi ar gyfer gwastraff y mae modd ei ailgylchu mwy arbenigol. Mae gan y Cyngor gasgliad arbennig ar gyfer Cynhyrchion Hylendid

Amsugol gwastraff, megis clytiau ac eitemau glanweithiol cartref tebyg. Mae hwn yn wasanaeth dewisol lle mae aelwydydd sydd wedi cofrestru yn cael sachau plastig porffor a chadi plastig diogel ar gyfer cyflwyno'r gwastraff yma o ymyl y ffordd. Mae casgliadau ar gyfer aelwydydd sydd wedi'u cofrestru yn digwydd bob wythnos.

- 2.1.10 Mae'r Cyngor yn darparu nifer o leoedd cyfleus ledled y gymuned ar gyfer ailgylchu offer trydanol bach. Mae mannau casglu mewn nifer o gyfleusterau'r Cyngor, gan gynnwys canolfannau chwaraeon, wedi'u cyfarparu'n dda ac yn darparu gwybodaeth am ba eitemau y mae modd eu hailgylchu a pha eitemau nad oes modd eu derbyn i'w hailgylchu.

Newidiadau i Wasanaeth Casglu Ailgylchu'r Cyngor

- 2.1.11 Yn ystod cyfnod y fframwaith yma, mae modd i'r Cyngor geisio newid fformat ei gynllun ailgylchu o ymyl y ffordd, er mwyn ymateb i ystod o ddeilliannau gan gynnwys cyflawniad ailgylchu, newid deddfwriaethol a/neu bwysau effeithlonrwydd cyffredinol. Mae modd i hyn arwain at gyflwyno neu ddileu rhai ffrydiau gwastraff a gaiff eu casglu ar wahân, lle mae cyfiawnhad amgylcheddol, gweithredol neu ariannol clir dros wneud hynny.

2.2 Casglu Gwastraff Gweddilliol

- 2.2.1 Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau helaeth ar gyfer ailgylchu gwastraff. O ganlyniad i hynny, mae'r ganran sy'n weddill o wastraff cartref nad oes modd ei ailgylchu yn fach. Mae modd rhoi'r elfen 'gwastraff gweddilliol' yma mewn sachau sbwriel safonol (bagiau du fel arfer) i'w casglu o ymyl y ffordd.
- 2.2.2 Mae gan wastraff gweddilliol cartrefi effaith amgylcheddol sylweddol uwch o'i gymharu â deunyddiau wedi'u taflu sy'n cael eu hailddefnyddio a'u hailgylchu. Ar ben hynny, mae gwastraff gweddilliol fel arfer yn costio mwy i'r Cyngor o ran casglu, trosglwyddo a gwaredu. Polisi'r Cyngor yw hyrwyddo ailgylchu yn hytrach na gwastraff gweddilliol ym mhob agwedd ar ei strategaeth gwastraff a'i weithrediad casglu.
- 2.2.3 Mae ymchwil yn dangos bod argaeledd casgliadau gwastraff gweddilliol yn dylanwadu'n uniongyrchol ar gyflawniad ailgylchu cartrefi; mae trigolion yn llai tebygol o ailgylchu lle mae mynediad aml, heb gyfyngiad at waredu gwastraff gweddilliol. Fel llawer o gynghorau eraill ledled Cymru, mae Rhondda Cynon Taf yn cyfyngu ar faint o wastraff gweddilliol y mae modd ei gyflwyno i'w waredu. Ar adeg ysgrifennu, mae hwn yn dair sach sbwriel du maint safonol, yn cael eu casglu bob tair wythnos.
- 2.2.4 Lle dangosir y mae modd cyflawni gwelliannau pellach mewn cyflawniad ailgylchu, mae modd i'r Cyngor ystyried newid pellach i gyfaint, amllder a dull cyflwyno gwastraff gweddilliol.
- 2.2.5 Ar adeg ysgrifennu'r fframwaith yma, mae gan Lywodraeth y DU ymgynghoriad agored ar gynnig penodol i ymestyn cwrdd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys Ynni o Wastraff a phrosesau llosgi gwastraff. Os caiff ei weithredu yn y modd a ragwelir ar hyn o bryd, byddai symudiad o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr cyfleusterau adfer gwastraff o'r fath brynu 'credydau carbon' i dalu cost
- CYNGOR RHONDDA CYNON TAF Tudalen 11 o 21 Fframwaith Gwastraff ac Adnoddau

amgylcheddol allyriadau carbon sy'n deillio o'r broses losgi berthnasol. Bydd hyn yn ei dro yn cynyddu cost weithredol ac mae pob arwydd y bydd hyn yn cael ei drosglwyddo i gwsmeriaid ar ffurf ffioedd 'wrth y giât'. Mae amcangyfrifon dangosol yn awgrymu y gallai prynu credydau o'r fath arwain at gostau ffi giât ychwanegol ar gyfer Ynni o Wastraff oddeutu £35 i £70 y Dunnell. Gallai hyn ddod i rym mor gynnar â 2028.

2.2.6 Mae'r Cyngor yn dibynnu ar Ynni o Wastraff i waredu gwastraff gweddilliol a gaiff ei gasglu ledled y fwrdeistref. Er gwaethaf y twf a ragwelir mewn ailgylchu, gallai'r Cyngor barhau i ddisgwyl casglu tua 30,000 tonnall o wastraff gweddilliol o gartrefi, flwyddyn ar ôl blwyddyn dros gyfnod y fframwaith yma. Bydd cyflwyno Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn y ffurf ddisgwyliedig yn arwain at ffioedd gwaredu gwastraff ychwanegol i'r Cyngor yn yr ystod o £1.1 miliwn i £2.1 miliwn.

2.2.7 Mae gwasanaethau'r Cyngor dan bwysau ariannol difrifol gyda diffygion cyllidebol sylweddol yn cael eu rhagweld dros gyfnod y fframwaith yma. Felly mae'n bwysig bod y gwasanaeth yn lliniaru'r cynnydd costau sylweddol posibl yma. Y prif gamau y mae modd eu cymryd yn hyn o beth fydd cynyddu ailgylchu ymhellach er mwyn lleihau'n sylweddol faint o wastraff gweddilliol a gaiff ei gynhyrchu gan gartrefi ac a gaiff ei gasglu gan y Cyngor ledled y Fwrdeistref.

2.3 Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref (Canolfannau Ailgylchu yn y Gymuned)

2.3.1 Mae modd mynd ag eitemau cartref nad ydyn nhw'n cael eu casglu o ymyl y ffordd i un o chwe chanolfan ailgylchu yn y Gymuned y Cyngor. Mae'r rhain yn cael eu gweithredu gan bartner rheoli gwastraff y Cyngor, Amgen Cymru, ac maen nhw i'w cael mewn lleoliadau cyfleus ledled y fwrdeistref.

2.3.2 Yn debyg i'r gwasanaeth casglu o ymyl y ffordd, mae ffocws ar ailgylchu yn y Canolfannau Ailgylchu yn y Gymuned. Caiff trigolion eu hannog i wahanu eu gwastraff cartref yn ôl math o ddeunydd gyda thros 20 o ffrydiau deunyddiau unigol ar gael ar y rhan fwyaf o safleoedd.

2.3.3 Caiff mannau gwaredu gwastraff gweddilliol eu darparu fel dewis olaf. Chaiff trigolion ddim cael gwared â gwastraff cymysg mewn bagiau. Lle mae trigolion wedi methu â pharchu hynny, byddan nhw'n parhau i gael eu cyfarwyddo i gael gwared ar y gwastraff o'r safle a'u hannog i ddychwelyd pan fydd y gwastraff wedi'i ddidoli i'w ailgylchu.

2.4 Newidiadau yn y Dull Casglu

2.4.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnal gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu effeithlon, hygrych, cydymffurfiol, cyflawniad uchel a charbon isel. Er mwyn cyflawni hyn bydd angen i'r Cyngor, ar adegau, newid ffurf ei ddull casglu. Gall newidiadau o'r fath gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Addasiadau i amllder casglu, y diwrnod a/neu amser casglu ar gyfer elfennau o'r gwasanaeth.

- Newidiadau yn y ffordd y mae'n ofynnol i drigolion gyflwyno gwastraff o ymyl y ffordd.
- Ychwanegu neu ddileu rhai mathau o wastraff ar gyfer casglu ar wahân.
- Amrywiad yn y mathau o gerbydau a gaiff eu defnyddio i gasglu'r gwastraff yn y gymuned.

3. CEFNOGI'R ECONOMI GYLCHOL LEOL

3.0.1 Mae modd ystyried 'economi gylchol' fel un sy'n cadw deunyddiau ac adnoddau cyhyd â phosibl drwy osgoi gwastraff a defnyddio adnoddau naturiol mor effeithlon â phosibl. Gall dull o'r fath warchod yr amgylchedd a'i adnoddau cyfyngedig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Er bod economïau cenedlaethol a rhanbarthol wedi dechrau'r trawsnewidiad i gylcholdeb, mewn sawl ffordd mae modd eu hystyried yn dal i fod yn llinol gan eu bod yn parhau i gynhyrchu symiau mawr o wastraff ac wedi cynyddu'r defnydd o adnoddau naturiol, megis ynni neu ddeunyddiau crai.

3.0.2 Bydd llawer o'r cynhyrchion a gaiff eu prynu gan aelwydydd yn Rhondda Cynon Taf wedi'u cynhyrchu trwy gadwyni cyflenwi rhyngwladol ac efallai y byddan nhw'n tarddu o wledydd sydd â safonau amgylcheddol is. Mae'r anawsterau o ran cyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol yn ystod pandemig COVID-19 yn enghraifft o sut mae cymunedau Cymru yn dibynnu ar fewnforio cynhyrchion bob dydd.

3.0.3 Mae gwaredu cynhyrchion a deunyddiau a'u disodli â nwyddau wedi'u mewnfario yn arwain at golled gwerth o fewn yr economi leol. Gallai enghraifft syml fod fel a ganlyn:

Prynu teledu ail-law ac wedi'i adnewyddu o safon gan ddarparwr aildddefnyddio lleol o ansawdd uchel fel Too Good To Waste yn Ynys-hir, o'i gymharu â phrynu'r model diweddaraf sydd wedi'i fewnforio o wneuthurwr tramor.

Manteision yr Economi Gylchol	Heriau
• Prynu am bris sylweddol is na'r dewis arall newydd. • Mae arian o'r gwerthiant yn mynd i bobl leol, a all wedyn wario'r arian hwnnw'n lleol. • Sgiliau a ddatblygwyd gan gymunedau lleol wrth adnewyddu ac ailwerthu cynhyrchion. • Llai o gludiant a charbon wedi'i fewnosod mewn cynhyrchion wedi'u haildddefnyddio. • Lleihau gwastraff ac effaith ar yr amgylchedd lleol. • Ddim yn ddibynnol ar amhariad ar y gadwyn gyflenwi fyd-eang.	• Efallai nad oes gyda nhw ymarferoldeb y modelau diweddaraf, ac efallai na fydd rhai ohonyn nhw'n cael eu defnyddio'n llawn.

3.0.4 Mae'r Cyngor yn nodi'r manteision posibl o drawsnewid ymhellach i economi fwy cylchol a bydd yn ystyried hyn yn ei benderfyniadau ynghylch gwastraff ac ailgylchu.

3.1 Mewn Partneriaeth ag Amgen Cymru

- 3.1.1 Amgen Cymru (Amgen) yw'r enw masnachu ar gyfer Cynon Valley Waste Disposal Company Ltd., cwmni cyfyngedig preifat sy'n eiddo i Gyngor Rhondda Cynon Taf. Mae dros 80% o'r incwm a gaiff ei gynhyrchu gan wasanaethau rheoli gwastraff a gaiff ei ddarparu gan Amgen yn dod yn uniongyrchol o'r Cyngor. Mae hyn yn bennaf ar ffurf ffioedd giât ar gyfer trin, didoli ac ailgylchu gwastraff. Mae bwrdd y cyfarwyddwyr sy'n rheoli Amgen yn cynnwys dau uwch Swyddog Cyngor a thrydydd cyfarwyddwr anweithredol. Mae'r cwmni'n cyflwyno cyfrifon blynyddol i Dŷ'r Cwmnïau / Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn unol â deddfwriaeth berthnasol ac yn cael ei archwilio'n allanol gan drydydd parti, darparwr cyfrifyddu ardystiedig.
- 3.1.2 Yn 2019, ymunodd y Cyngor ag Amgen i ariannu a datblygu Cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau 'o'r radd flaenaf'. Mae'r cyfleuster yn elwa o'r dechnoleg ddiweddaraf mewn adnabod deunyddiau a didoli mecanyddol ac fe'i defnyddir i wahanu'r tua 35,000 tonnall o Ailgylchu Cymysg Sych a gaiff ei gasglu bob blwyddyn gan y Cyngor yn y fwrdeistref.
- 3.1.3 Mae Amgen yn gweithredu chwe Chanolfan Ailgylchu yn y Gymuned y Cyngor gan ddarparu arbenigedd rheoli gwastraff wrth ddatblygu, gweithredu a chydymffurfiaeth amgylcheddol barhaus y cyfleusterau. Mae swyddogion profiadol y Cwmni yn gweithio gyda charfan caffael y Cyngor i ddod o hyd i wasanaethau ar gyfer prosesu/ailgylchu parhaus ystod eang o ddeunyddiau.
- 3.1.4 Cydnabyddir bod Amgen wedi datblygu i fod yn arbenigwr rheoli gwastraff uchel ei berfformiad ac yn gwneud cyfraniadau sylweddol at gyflawni cyfraddau ailgylchu uchel y Cyngor i'w drigolion. Yn hyn o beth, bydd y Cyngor yn parhau â'i bartneriaeth ag Amgen a lle gellir nodi cyfleoedd i ddatblygu neu wella'r gwasanaeth ymhellach, bydd yn cefnogi Amgen yn hyn o beth.

3.2 Cyflwyno Ailgylchu Effeithlon o Ansawdd Uchel

- 3.2.1 Wrth i gymdeithas drawsnewid i economi fwy cylchol, bydd deunyddiau ailgylchadwy megis papur, plastig, metel a gwydr yn datblygu gwerthoedd cynyddol. Mae'r graddau y mae modd i'r Cyngor a'i bartner Amgen gasglu incwm ar gyfer y deunyddiau yma'n dibynnu ar ansawdd terfynol y deunyddiau, amodau'r farchnad a chadernid unrhyw broses gaffael sy'n gysylltiedig â'u gwerthu ymlaen.
- 3.2.2 Bydd y Cyngor a'i bartneriaid rheoli gwastraff bob amser yn ceisio cynhyrchu ailgylchu o'r ansawdd uchaf o ystyried cyfyngiadau technegol, cymdeithasol ac economaidd. Boed yn gwneud penderfyniadau ar ei arferion gwastraff ei hun neu'n caffael gwasanaethau rheoli gwastraff allanol, bydd y Cyngor yn rhoi pwyslais ar ansawdd ailgylchu o'r pwynt casglu i'r gyrchfan derfynol.
- 3.2.3 Er mwyn cyflawni'r gwerth gorau a deilliannau ailgylchu o ansawdd uchel, bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio fframweithiau ar gyfer dewis cludiant a phrosesu gwastraff ac ailgylchu. Bydd gofyn i gwmnïau sy'n prynu ein deunyddiau ddangos cydymffurfiaeth amgylcheddol a chorfforaethol uchel a darparu deilliannau ailgylchu,

a elwir yn aml yn 'gyrchfannau terfynol' sydd o ansawdd uchel, yn hawdd eu holrhain ac mor lleol â phosibl i'r man tarddiad.

- 3.2.4 Bydd y Cyngor yn parhau i gydweithio ag awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth i gaffael siopau a gwasanaethau ailgylchu, gyda'r nod o sicrhau arbedion maint a'r gwerth gorau.

3.3 Atgyweirio ac Ailddefnyddio

- 3.3.1 Mae strategaeth wastraff Llywodraeth Cymru 'Y Tu Hwnt i Ailgylchu', yn dogfennu'r dyhead i symud tuag at "ddiwylliant cyffredinol o ailddefnyddio, atgyweirio ac ailweithgynhyrchu", gan nodi ailddefnyddio ac atgyweirio fel blaenoriaeth gynaliadwyedd uwch yng nghyd-destun yr Hierarchaeth Gwastraff. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021-2026 yn ymrwymo i ddatblygu "80 o ganolfannau atgyweirio ac ailddefnyddio yng nghanol trefi".
- 3.3.2 Gyda chymorth Llywodraeth Cymru, mae Cyngor RhCT wedi datblygu 3 siop ailddefnyddio ledled y fwrdeistref: Llantrisant, Treherbert ac Aberdâr. Yn ystod cyfnod adrodd 2024/25, ailddefnyddiodd y Cyngor a'i bartner gwasanaeth ailddefnyddio (Waste Savers Charitable Trust) dros 220,000 o eitemau cartref gyda phwysau cyfunol o 350 tunnell.
- 3.3.3 Bydd y Cyngor yn anelu at gynyddu hyn i 500 tunnell ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/2026. Caiff hyn ei gyflawni drwy wella cyfleusterau presennol i annog mwy o roddion o ansawdd gwell a, lle bo'n gynaliadwy, datblygu cyfleusterau newydd mewn ardaloedd sy'n dangos lefel o alw a lle mae cyllid grant ar gael.

3.4 Arloesedd a Chyllid

- 3.4.1 Yn hanesyddol, mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi dangos arweinyddiaeth ranbarthol o ran rheoli gwastraff cynaliadwy, gan arwain y gwaith o gaffael a datblygu ystod o gyfleusterau rheoli gwastraff o bwys rhanbarthol, gan gynnwys Ffatri Treulio Anaerobig Gwastraff Bwyd; a ddatblygwyd o dan bartneriaeth gyhoeddus-breifat gydag ailgylchwr gwastraff organig arbenigol. Mae'r Cyngor hefyd wedi cael ei gydnabod yn genedlaethol am ei ddull arloesol o ymdrin â materion rheoli gwastraff cymhleth ac mae wedi sicrhau symiau sylweddol o gyllid grant o wahanol ffynonellau dros y 10 mlynedd flaenorol.
- 3.4.2 Bydd y Cyngor yn parhau â'r dull yma drwy gydol cyfnod y fframwaith gwastraff ac adnoddau yma a bydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi meysydd o'i weithrediad y mae modd eu gwella neu eu datblygu ymhellach gyda chymorth wedi'i dargedu. Bydd swyddogion y Cyngor yn cael eu hannog i gadw a gwella eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad o reoli gwastraff drwy fuddsoddi mewn hyfforddiant. Bydd staff yn cael eu hannog i chwilio am gyfleoedd ariannu grantiau a all gyflawni gwelliannau ansawdd ac effeithlonrwydd yn eu maes gwasanaeth.

4. ADDYSG A HYFFORDDIANT

4.0.1 Er bod modd i'r Cyngor nodi o fewn y fframwaith yma fanteision rheoli gwastraff cynaliadwy a'r newid i arferion mwy cylchol, mae'r graddau y mae modd cyflawni'r nodau a'r amcanion a amlinellir yn dibynnu'n fawr ar y camau a gaiff eu cymryd gan drigolion a chymunedau lleol. Mae modd i'r Cyngor hwyluso arferion rheoli gwastraff da drwy ymwybyddiaeth o wastraff, addysg a thrwy gydnabod lle mae ymdrechion lleol wedi cyfrannu at yr amcanion cyffredinol.

4.0.2 Mae ein gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu yn cael eu darparu gan weithlu mawr o staff gweithredol a swyddogion gwastraff, sy'n cydweithio'n effeithiol i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf. Bydd y Cyngor yn parhau i fuddsoddi yn ei staff a bydd, lle bo'n briodol, yn cydnabod cyflawniad uchel yn unol â pholisïau corfforaethol ehangach y Cyngor.

4.1 Ymwybyddiaeth o Wastraff ac Addysg

4.1.1 Yn hanesyddol mae'r Cyngor wedi defnyddio ei dudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o aildddefnyddio ac ailgylchu a rhoi adborth i drigolion mewn perthynas â chynnydd tuag at dargedau ailgylchu. Byddwn ni'n parhau â'r dull yma, gan sicrhau bod ein cyfathrebiadau'n gywir, yn ddi-dechnegol ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar drigolion i barhau â'u taith ailgylchu.

4.1.2 Gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, mae Cyngor RhCT wedi buddsoddi mewn addysg gwastraff gyda swyddogion ymwybyddiaeth ac addysg gwastraff llawn amser. Mae swyddogion ymwybyddiaeth yn cefnogi yn y gymuned, gan roi adborth i gartrefi ar gyflawniad lleol a darparu gwybodaeth ac adnoddau (h.y. taflenni gwybodaeth a chynwysyddion gwastraff) ledled y fwrdeistref.

4.1.3 Mae Canolfan Addysg Bryn Pica yn rhoi cyfle i blant ysgol gynradd roi cynnig ar ailgylchu a chynaliadwyedd. Mae gan y ganolfan arddangosfeydd rhyngweithiol ac mae staff addysg medrus yn cyflwyno gweithgareddau gydag amcanion dysgu clir sy'n hyrwyddo ailgylchu. Bydd y Cyngor yn parhau i wneud y cyfleuster yma ar gael i ysgolion a grwpiau cymunedol eraill sydd â diddordeb a bydd yn buddsoddi mewn gwelliannau pellach i'r profiad dysgu, lle mae cyllid ar gael.

5. TARGEDU CYFLAWNIAD

5.0.1 Er mwyn cyflawni'r nodau a nodir yn y fframwaith gwastraff, bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r metrigau cyflawniad a gaiff eu hamlinellu isod. Bydd y rhain yn ein cynorthwyo i flaenoriaethu elfennau penodol o'r gwasanaeth ac yn caniatáu inni addasu ein dull gweithredu lle gall mesurau penodol ddangos nad yw'r lefelau cyflawniad gofynnol wedi'u bodloni.

5.1 Casglu, Rheoli ac Adrodd Data

5.1.1 Bydd y Cyngor yn parhau i gasglu ac adrodd ar gyfeintiau'r gwastraff a gaiff eu casglu a'r symiau sy'n cyrraedd cyrchfannau terfynol aildddefnyddio, ailgylchu a chompostio, yn ogystal â chyfeintiau gwastraff a gaiff eu hadfer trwy Ynni o Wastraff

neu a gaiff eu hanfon i safleoedd tirlenwi. Caiff hyn ei wneud yn unol â'r gofynion a nodir gan Lywodraeth Cymru.

- 5.1.2 Bydd y Cyngor yn parhau i fodloni terfynau amser adrodd chwarterol a bydd yn sicrhau bod cyflawniad ailgylchu pennaf ar gael i drigolion, fel arfer trwy wefannau gwybodaeth gwastraff Cymru gyfan sy'n bodoli eisoes a chyfathrebu uniongyrchol yn lleol. Bydd swyddogion rheoli gwastraff wedi'u hyfforddi yn hysbysu uwch arweinwyr mewn tueddiadau rheoli gwastraff yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac o fewn y fwrdeistref, er mwyn hwyluso gwneud penderfyniadau effeithiol.

5.2 Cyfradd Ailgylchu

- 5.2.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnal lefelau uchel o ailgylchu. Bydd ein cyflawniad yn hyn o beth yn dibynnu'n rhannol ar gyfranogiad trigolion yn y cynllun ailgylchu o ymyl y ffordd a gwasanaethau ailgylchu o safon a gaiff eu darparu gan ein partneriaid rheoli gwastraff preifat. Mae ffurf ein gwasanaeth casglu o ymyl y ffordd a darpariaeth canolfannau ailgylchu yn y gymuned ledled y fwrdeistref hefyd yn ystyriaethau pwysig o ran cyflawniad ailgylchu.
- 5.2.2 Bydd Swyddogion y Cyngor yn monitro cyflawniad pob agwedd ar y gwasanaeth ac yn cyfathrebu'n effeithiol ag aelodau etholedig a chymunedau mewn perthynas â chyflawniad yn erbyn y dangosyddion allweddol canlynol. Lle mae patrwm o gyflawniad is neu le nad yw metrig penodol wedi'i gyflawni, bydd Swyddogion y Cyngor yn cynnig ymyriadau sydd â'r nod o unioni deilliannau o'r fath.
- 5.2.3 Cyrhaeddodd y Cyngor ei darged ailgylchu statudol, gan adrodd cyfradd derfynol o 71.11% ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025. Mae'r garreg filltir yma'n adlewyrchu ymdrechion parhaus gan drigolion a charfanau gweithredol. Bydd ymgysylltu a chyfranogiad parhaus yn hanfodol er mwyn cynnal a gwella cyflawniad yn y blynyddoedd i ddod.

5.3 Lleihau Gwastraff ac Ailddefnyddio

- 5.3.1 Yn unol ag egwyddorion yr hierarchaeth gwastraff a strategaeth 'Y Tu Hwnt i Ailgylchu' Llywodraeth Cymru, bydd y Cyngor yn ceisio cynorthwyo ei gymunedau i leihau cynhyrchu gwastraff a blaenoriaethu ailddefnyddio ac atgyweirio. Bydd cyfaint cyffredinol y gwastraff a gaiff ei gynhyrchu yn y fwrdeistref yn cael ei ddylanwadu'n fawr gan amodau economaidd sy'n gyffredin ar adeg benodol. O ystyried nad oes gan y Cyngor fawr o ddylanwad ar gynhyrchu gwastraff cartrefi, nid yw'n bosibl gosod targedau ar gyfer lleihau gwastraff.
- 5.3.2 Mae atgyweirio ac ailddefnyddio eitemau cartref bob dydd yn helpu i leihau cynhyrchu gwastraff. Mae'r Cyngor yn darparu cyfleusterau ailddefnyddio ac atgyweirio mewn rhai canolfannau ailgylchu ac yn y gymuned. Bydd y Cyngor yn parhau i dyfu'r rhwydwaith yma, gan weithio'n weithredol gyda phartneriaid a chefnogi ceisiadau am gyllid economi gylchol, lle bo'n briodol.

5.4 Allryriadau Carbon ac Addasu i'r Hinsawdd

5.4.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod newid hinsawdd yn cyflwyno heriau a chyfleoedd sylweddol ar gyfer darparu gwasanaethau rheoli gwastraff. Mae ein dull yn ddwy ran: lliniaru ein hól troed carbon ein hunain drwy leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau rheoli gwastraff, ac addasu ein gwasanaethau i ddod yn gydnerth i effeithiau anochel hinsawdd sy'n newid. Mae hyn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â Strategaeth Newid Hinsawdd gyffredinol y Cyngor, 'Hinsawdd Ystyriol', ac egwyddorion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Effaith Newid yn yr Hinsawdd ar Ddarparu Gwasanaethau a Chadwyni Cyflenwi

5.4.2 Mae effeithiau newid yn yr hinsawdd eisoes yn cael eu gweld a rhagwelir y byddan nhw'n dwysáu, gan effeithio ar wasanaethau rheoli gwastraff y Cyngor mewn sawl ffordd. Mae enghreiffiau o effeithiau hyd yma yn cynnwys:

- Arweiniodd Storm Dennis (Chwefror 2020) a Storm Bert (Tachwedd 2024) at lifogydd yng nghanolfan ailgylchu yn y Gymuned Trefforest. Caewyd y safle am nifer o ddyddiau tra bod gwaith glanhau yn mynd rhagddo.
- Mae amllder cynyddol tanau gwyllt wedi effeithio ar weithrediadau yn safle tirlenwi Bryn Pica. Yn 2023, daeth tân gwyllt mawr at ffin cyfleuster rheoli gwastraff y Cyngor ym Mryn Pica. Cafodd hyn ei reoli'n effeithlon gan y Gwasanaeth Tân ac Achub a doedd dim unrhyw ddifrod i eiddo'r Cyngor. Oherwydd y risg gynyddol o dân mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn mesurau atal tân ychwanegol.

Mae'r canlynol yn crynhoi'r prif risgiau i'r gwasanaeth o ran effeithiau posibl newid hinsawdd.

Cyfnodau o Dywydd Garw	Gall amllder a dwyster cynyddol glaw trwm, stormydd, tonnau gwres a llifogydd amharu'n uniongyrchol ar amserlenni casglu, gwneud llwybrau'n anhygyrch, a pheri risgiau diogelwch i griwiau casglu. Gall cyfnodau oer difrifol, er eu bod yn llai aml, hefyd effeithio ar weithrediadau.
Bregusrwydd Isadeiledd	Gall cyfleusterau rheoli gwastraff, gan gynnwys depos, Cyfleusterau Ailgylchu Deunyddiau, gweithfeydd Treulio Anaerobig, a Chanolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref, fod yn agored i lifogydd, suddo, neu broblemau gweithredol sy'n gysylltiedig â gwres, a allai arwain at ymyrraeth â gwasanaeth.
Argaeledd Adnoddau a Chostau	Mae modd i newid yn yr hinsawdd effeithio ar gadwyni cyflenwi byd-eang ar gyfer adnoddau hanfodol, gan gynnwys tanwydd ar gyfer cerbydau, deunyddiau ar gyfer biniau a bagiau, a chydannau ar gyfer seilwaith rheoli gwastraff. Mae modd i hyn arwain at ansefydlogrwydd prisiau, costau gweithredu uwch, a phrinder posibl.

Cydnherthedd Cyflenwyr	Mae ein gallu i ddarparu gwasanaethau yn dibynnu'n fawr ar ein rhwydwaith o gyflenwyr a chontractwyr ar gyfer cerbydau, offer, cyfleusterau prosesu a llwybrau gwaredu. Gall aflonyddwch i'w gweithrediadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd (e.e. problemau cyflenwi ynni, cyfleusterau sydd wedi'u difrodi, oedi trafnidiaeth) effeithio'n uniongyrchol ar barhad gwasanaeth a chostau'r Cyngor. Er enghraifft, mae'r estyniad arfaethedig i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU i Ynni o Wastraff a phrosesau llosgi gwastraff (fel y manylir yn 2.2.5) yn cynrychioli ymateb polisi i newid hinsawdd a fydd yn cynyddu costau gwaredu'n uniongyrchol i'r Cyngor.
Newidiadau i Gyfansoddiad Gwastraff	Gallai newidiadau mewn patrymau tywydd ddylanwadu ychydig ar gynhyrchu a chyfansoddiad gwastraff, er enghraifft, mwy o wastraff gardd yn ystod tymhorau tyfu estynedig neu newidiadau yn y defnydd o ddeunydd pacio mewn ymateb i ymddygiad defnyddwyr sydd wedi'i ddylanwadu gan ddigwyddiadau hinsawdd.

Camau i Fynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd (Lliniaru)

- 5.4.3 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i leihau ôl troed carbon ei weithgareddau rheoli gwastraff a chyfrannu at dargedau datgarboneiddio cenedlaethol a lleol. Dylai camau lliniaru fod wedi'u gwreiddio yn yr hierarchaeth gwastraff, gan flaenoriaethu lleihau gwastraff, aildddefnyddio ac ailgylchu fel yr amlinellir isod.

Atal Gwastraff ac Ailddefnyddio	Bydd ymgyrchoedd a mentrau rhagweithiol yn annog trigolion i leihau'r gwastraff cyffredinol a gynhyrchir. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo defnydd ystyriol, cefnogi rhwydweithiau ailddefnyddio, a meithrin cyfleoedd atgyweirio o fewn y gymuned. Mae llai o wastraff a gynhyrchir yn trosi'n uniongyrchol i lai o allyriadau o gasglu, didoli a phrosesu.
Gwneud y Mwyaf o Ailgylchu a Chompostio	Cynnal cyfraddau ailgylchu sy'n uwch na'r targed ailgylchu o 70% (gan gynnwys ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio). Mae dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi a llosgi (lle mae gwastraff gweddilliol yn mynd) yn arbed allyriadau nwyon tŷ gwydr sylweddol o'i gymharu â chynhyrchu deunyddiau crai. Mae buddsoddiad y Cyngor yn ein cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau o'r radd flaenaf a threuliad anaerobig gwastraff bwyd yn enghreifftiau allweddol o'r ymrwymiad yma, gan gynhyrchu ynni adnewyddadwy ac adnoddau gwerthfawr.
Optimeiddio Gweithrediadau Casglu	Bydd adolygu ac optimeiddio llwybrau casglu yn barhaus yn lleihau'r defnydd o danwydd ac allyriadau cerbydau. Datgarboneiddio Cerbydau: Archwilio a chyflwyno cerbydau trydan ac allyriadau is yn raddol ar gyfer casglu gwastraff a gwasanaethau ategol, lle bo'n hyfyw yn dechnegol ac yn economaidd.

	Offer a Pheiriannau Effeithlon: Sicrhau bod yr holl beiriannau mewn depos a Chanolfannau Ailgylchu yn y Gymuned yn gweithredu'n effeithlon ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd i leihau'r defnydd o ynni.
Hyrwyddo Ailgylchu o Ansawdd Uchel	Drwy sicrhau ansawdd uchel y deunyddiau y mae modd eu hailgylchu a gaiff eu casglu, rydyn ni'n cefnogi diwydiannau sy'n defnyddio cynnwys wedi'i ailgylchu, gan leihau'r angen am brosesau echdynnu a gweithgynhyrchu deunyddiau crai sy'n ddwys o ran ynni.
Caffael Cynaliadwy	Integreiddio meini prawf lleihau carbon i brosesau caffael ar gyfer cerbydau, offer a chontractau prosesu gwastraff newydd, gan annog cyflenwyr i ddangos eu hymdrechion eu hunain i liniaru'r hinsawdd.

Addasu i'r newid yn yr hinsawdd

- 5.4.4 Er mwyn sicrhau cydnheredd a pharhad hirdymor gwasanaethau gwastraff hanfodol, bydd y Cyngor yn integreiddio addasu i newid hinsawdd yn ei gynllunio a'i weithrediadau. Bydd y themâu canlynol yn cael eu mabwysiadu wrth adolygu'r cynllun gweithredol, datblygu isadeiledd newydd a chaffael gwasanaethau.

Cydnheredd Cyflwyno Gwasanaeth	Datblygu ac adolygu cynlluniau wrth gefn yn rheolaidd ar gyfer tarfu ar wasanaethau a achosir gan ddigwyddiadau tywydd eithafol, gan gynnwys amserlenni casglu, llwybrau a strategaethau cyfathrebu cyhoeddus amgen.
Cydnheredd Isadeiledd	Cynnal asesiadau o isadeiledd rheoli gwastraff allweddol (depos, canolfannau ailgylchu, canolfannau ailgylchu gwastraff cartref) i nodi a mynd i'r afael â gwendidau i effeithiau hinsawdd megis llifogydd a gweithredu mesurau amddiffynnol lle bo angen.
Rheoli Cadwyni Cyflenwi	Archwilio arallgyfeirio cyflenwyr ar gyfer nwyddau a gwasanaethau hanfodol i leihau dibyniaeth ar bwyntiau methiant unigol. Cydweithio â chyflenwyr allweddol i ddeall eu risgiau hinsawdd a'u cynlluniau cydnheredd, gan feithrin cyfrifoldeb a rennir am barhad gwasanaeth.
Data a Monitro	Defnyddio rhagolygon hinsawdd a data tywydd amser real i lywio penderfyniadau gweithredol, rhagweld effeithiau, a mireinio strategaethau addasu yn barhaus.
Adolygiad Parhaus a Hyblygrwydd	Gan gydnabod y bydd effeithiau hinsawdd yn esblygu, bydd y fframwaith yma'n cael ei adolygu'n rheolaidd i ymgorffori'r wyddoniaeth hinsawdd ddiweddaraf, datblygiadau polisi, ac arferion gorau mewn addasu i'r hinsawdd, gan sicrhau bod ein gwasanaethau gwastraff yn parhau i fod yn gadarn ac yn effeithiol i'r dyfodol.

5.5 Effeithlonrwydd

- 5.5.1 Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn gwario dros £20 miliwn ar gasglu, ailgylchu a gwaredu gwastraff, gan reoli rhwng 110,000 a 120,000 tunnell o ddeunydd o tua 110,000 o eiddo preswyl. Mae'r Cyngor yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau bod

gwasanaethau gwastraff yn cael eu darparu'n effeithlon ac yn parhau i gynrychioli gwerth am arian i drigolion.

5.5.2 I gyflawni hyn, bydd Swyddogion y Cyngor yn adolygu cynlluniau gweithredol, contractau gwasanaeth ac agweddau eraill ar wariant yn rheolaidd ac mewn ymateb i unrhyw newidiadau arfaethedig i wasanaethau.

5.6 Amcanion Allweddol

5.6.1 Er mwyn cyflawni'r nodau a nodir yn y fframwaith yma, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu 3 amcan allweddol. Dyma nhw:

Amcan 1	Cynnal lefelau ailgylchu o 70%, o leiaf.
Targed	Yn ystod cyfnod y fframwaith yma, bydd y Cyngor yn parhau i gyflawni lefelau ailgylchu o 70% yn unol â gofyniad Mesur Gwastraff (Cymru) 2010. Bydd y Cyngor yn anelu at ragori ar 70% lle bo'n ymarferol yn dechnegol ac yn economaidd.

Amcan 2	Lleihau faint o wastraff gweddilliol trefol a gaiff ei gasglu gan y Cyngor.
Targed	Gan gyfeirio at y cynnydd dymunol yn y cyfeintiau ailgylchu a gesglir gan y Cyngor, caiff camau eu cymryd i gynorthwyo aelwydydd i leihau'r defnydd o gasgliadau gwastraff gweddilliol (bagiau du). Bydd cyfanswm y gwastraff gweddilliol a gaiff ei gasglu o gartrefi gan y Cyngor yn is yn y flwyddyn olaf o'r fframwaith yma o'i gymharu â'r gwerth a adroddwyd ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024.

Amcan 3	Annog mwy o ailgylchu gwastraff bwyd wythnosol.
Targed	Er y byddai'r Cyngor yn ceisio annog pobl i beidio â gwastraffu bwyd lle bynnag y bo modd, cydnabyddir bod gwastraff bwyd yn cyfrif am gyfran sylweddol o aelwydydd. Yn ystod cyfnod y fframwaith yma bydd y Cyngor yn cymryd camau i sicrhau bod canran uchel o gartrefi yn cymryd rhan yn aml mewn casgliadau gwastraff bwyd ar wahân.

Llyfryddiaeth

WRAP Cymru, 2023. NATIONAL LOCAL AUTHORITY WASTE COMPOSITION IN WALES. Ar gael: <https://www.wrap.ngo/sites/default/files/2023-07/WRAP-wales-msw-summary-report-cymraeg-2023.pdf>

Eunomia, 2024. Global Recycling League Table – Phase One Report. Ar gael: [Global Recycling League Table – Phase One Report – Eunomia Research and Consulting](#)

Llywodraeth Cymru 2021. Mwy nag ailgylchu: Ein cynllun i wneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti. Ar gael: [Dogfen Mwy Nag Ailgylchu](#)